Cais am orchymyn

Ffurflen C1

Deddf Plant 1989 oni bai am orchmynion gofal a gorchmynion goruchwylio, gorchmynion Adran 8 a gorchmynion sy'n ymwneud â gorfodi gorchymyn cyswllt.

Os ydych yn gwneud cais am orchymyn Adran 8 neu orchymyn sy'n ymwneud â gorfodi gorchymyn cyswllt, bydd arnoch angen defnyddio ffurflen gais wahanol (Ffurflen C100 ar gyfer gorchmynion Adran 8 a ffurflen C79 ar gyfer gorfodi). Mae'r llyfryn 'CB1 - Gwneud Cais - plant a'r llysoedd teulu' yn rhoi rhagor o wybodaeth. Mae'r daflen hon ar gael o'ch llys lleol neu ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Os ydych yn gwneud cais am un o'r gorchmynion cyfraith breifat canlynol dan Ddeddf Plant 1989, **rhaid** i chi ffeilio ffurflen FM1 ar wahân gyda'r cais hwn:

- Gorchymyn cyfrifoldeb rhiant (adrannau 4(1)(c), 4ZA(1)(c) neu 4A(1)(b) Deddf Plant 1989) neu orchymyn sy'n terfynu cyfrifoldeb rhiant (adrannau 4(2A), 4ZA(5) neu 4A(3) o'r Ddeddf honno).
- Gorchymyn i benodi gwarcheidwad plant (adran 5(1) Deddf Plant 1989) neu orchymyn sy'n terfynu'r penodiad (adran 6(7) o'r Ddeddf honno).
- Gorchymyn yn rhoi caniatâd i newid cyfenw plentyn neu dynnu plentyn o'r Deyrnas Unedig (adrannau 13(1) neu 14C Deddf Plant 1989).
- Gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig neu orchymyn yn amrywio neu'n rhyddhau gorchymyn o'r fath (adran 14D Deddf Plant 1989).

Os ydych yn gwneud cais am orchymyn gofal neu orchymyn goruchwylio, bydd arnoch angen defnyddio Ffurflen C110A ar-lein yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Bydd Cafcass/CAFCASS CYMRU yn gwneud gwiriadau y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol.

Cafcass – Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (yn Lloegr); CAFCASS CYMRU – Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru.

Cyfeirnod Help i Dalu Ffioedd (os yw'n berthnasol)	**H W F** –			–		

Yn y llys teulu yn eistedd yn:	I'w lenwi gan y llys
	Dyddiad cychwyn
	Rhif yr achos
Enw(au) llawn y plentyn/plant	Rhif(au) y plentyn/plant

Nodyn pwysig

Dylech ateb cwestiwn 7 dim ond os ydych yn gwneud cais am**Orchymyn Cyfrifoldeb Rhiant.**

© Hawlfraint y Goron 2026

1 Amdanoch chi (yr unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen hon, a elwir yn 'y ceisydd')

Os nad ydych chi eisiau i'r Atebydd wybod eich manylion cyswllt, gadewch y blwch ar gyfer manylion eich cyfeiriad yn wag a llenwi Ffurflen Manylion Cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gallwch gael copi o ffurflen **C8** o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu.
Gwnewch yn siŵr na fydd unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn cynnwys manylion cyswllt cyfrinachol rydych eisiau eu dal yn ôl.

Nodwch:

- *eich teitl, enw llawn, cyfeiriad, rhif ffôn, dyddiad geni a'r berthynas gyda phob plentyn uchod*
- *enw eich cyfreithiwr, a'i gyfeiriad, ei gyfeirnod, ei rif ffôn, rhif ffacs a rhif DX*

Rhif cyfrif ffi'r Cyfreithiwr	

2 Rhowch fanylion y plant/plentyn a'r gorchymyn/gorchmynion yr ydych yn gwneud cais amdanynt.

Ar gyfer pob plentyn, nodwch:

- *enw llawn, dyddiad geni a rhywedd*
- *y math o orchymyn/gorchmynion yr ydych yn gwneud cais amdano/amdanynt (er enghraifft, Gorchymyn Cyfrifoldeb Rhiant).*

3 Achosion llys cyfredol sy'n ymwneud â'r plentyn/plant

Os oes unrhyw achosion llys wedi bod, neu unrhyw achosion ar y gweill, sy'n ymwneud â:

- *plentyn yr ydych wedi'i enwi ym mharagraff 2*
- *brawd neu chwaer llawn, hanner frawd neu hanner chwaer, neu lysfrawd neu lyschwaer plentyn yr ydych wedi'i enwi ym mharagraff 2*
- *unigolyn yn yr achos hwn sydd yn, neu sydd wedi bod yn rhan o ofalu am blentyn yr ydych wedi'i enwi ym mharagraff 2*

Atodwch gopi o'r gorchymyn perthnasol a nodwch:

- *enw'r llys*
- *enw a chyfeiriad cyswllt (os yn hysbys) gwarcheidwad y plentyn, os penodwyd un*
- *enw a chyfeiriad cyswllt (os yn hysbys)y swyddog adrodd ar ran plant a theuluoedd, os penodwyd un*
- *enw a chyfeiriad cyswllt (os yn hysbys) y swyddog lles, os penodwyd un*
- *enw a chyfeiriad cyswllt (os yn hysbys) y cyfreithiwr a benodwyd ar gyfer y plant/plentyn.*

4 Yr atebydd/atebwyr

Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010, OS 2010/2955, 12.3

Os oes mwy na dau o bobl yn rhan o'r achos, ac mae angen cadw manylion cyswllt un (neu fwy) o'r atebwyr yn gyfrinachol o bobl eraill yn yr achos, *gadewch y blwch isod ar gyfer eu manylion yn wag a llenwch ffurflen manylion cyswllt Cyfrinachol* ***C8.*** *Gallwch gael copi o ffurflen* ***C8*** *o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Gwnewch yn siŵr* ***nad yw*** *unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu'r manylion cyswllt cyfrinachol hynny.*

Ar gyfer pobl atebydd, nodwch:

- *eu teitl, enw llawn a chyfeiriad*
- *eu dyddiad geni (os yw'n hysbys) neu eu hoedran*
- *eu perthynas â phob plentyn.*

5 Eraill y mae'n rhaid rhoi hysbysiad iddynt

Cyfarwyddyd Ymarfer 12C o Reolau Trefniadaeth Sifil 2020 - Cyflwyno cais mewn achosion penodol sy'n ymwneud â phlant

Os oes angen cadw manylion cyswllt unrhyw un o'r bobl hyn yn gyfrinachol o bobl eraill sy'n rhan o'r achos hwn, gadewch y blwch isod ar gyfer y manylion cyswllt yn wag a llenwch ffurflen manylion cyswllt Cyfrinachol **C8**. Gallwch gael copi o ffurflen **C8** o hmctsformfinder.justice.gov.uk neu unrhyw swyddfa llys teulu. Gwnewch yn siŵr **nad yw** unrhyw ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon, neu ar ddyddiad hwyrach, yn datgelu'r manylion cyswllt cyfrinachol hynny.

Ar gyfer pob unigolyn, nodwch:

- *eu teitl, enw llawn a chyfeiriad*
- *eu dyddiad geni (os yw'n hysbys) neu eu hoedran*
- *eu perthynas â phob plentyn.*

6 Gofal y plentyn/plant

Ar gyfer pob plentyn ym mharagraff 2, dylech nodi:

- *cyfeiriad cyfredol a plentyn a pha mor hir mae'r plentyn wedi byw yno*
- *p'un ai cyfeiriad arferol y plentyn yw hwn a phwy sy'n gofalu am y plentyn yno*
- *perthynas y plentyn â'r plant eraill (os oes rhai).*

7 Cam-drin domestig, trais neu niwed

Ydych chi'n credu bod y plentyn/plant a enwir uchod wedi dioddef neu mewn perygl o ddioddef unrhyw niwed drwy unrhyw un o'r canlynol:

- *cam-drin domestig mewn unrhyw ffurf*
- *trais o fewn yr aelwyd*
- *cipio plentyn*
- *unrhyw ymddygiad arall*

gan unrhyw unigolyn sydd neu sydd wedi bod yn ymwneud â gofalu am y plentyn/plant; neu sy'n byw gyda'r plentyn/plant neu sydd â chysylltiad â'r plentyn/plant?

	Ydw	Nac ydw
Ticiwch y blwch perthnasol	☐	☐

Os ydych yn ticio'r blwch Ydw* , rhaid i chi*hefyd lenwi'r Ffurflen Gwybodaeth Ychwanegol (ffurflen C1A). *Gallwch gael y ffurflen hon o swyddfa'r llys os nad oes un wedi'i hamgáu gyda'r papurau a gyflwynwyd ichi.*

8 Gwasanaethau Cymdeithasol

Ar gyfer pob plentyn ym mharagraff 2, dylech nodi:

- *p'un a yw'r plentyn yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Os felly, nodwch enw'r gweithiwr cymdeithasol a chyfeiriad yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol.*
- *p'un a yw'r plentyn ar, neu wedi bod ar, y Gofrestr Amddiffyn Plant. Os felly, rhowch fanylion am y cofrestriad.*

9 Addysg a iechyd y plentyn/plant

Ar gyfer pob plentyn, nodwch:

- *enw'r ysgol, coleg neu leoliad hyfforddi y mae'r plentyn yn ei mynychu/fynychu*
- *p'un a yw'r plentyn yn iach Nodwch fanylion unrhyw anabledd difrifol neu salwch.*
- *p'un a oes gan y plentyn unrhyw anghenion arbennig.*

10 Rhieni'r plentyn/plant

Ar gyfer pob plentyn, nodwch:

- *enw(au) llawn rhieni'r plentyn/plant*
- *p'un a yw'r rhieni yn, neu wedi bod, yn briod â'i gilydd neu'n bartneriaid sifil i'w gilydd*
- *p'un a yw'r rhieni yn byw gyda'i gilydd. Os felly, ble.*
- *p'un a yw, hyd eithaf eich gwybodaeth, unrhyw un o'r rhieni wedi bod yn rhan o achos llys yn ymwneud â phlentyn. Os felly, nodwch y dyddiad ac enw'r llys.*

11 Teulu'r plentyn/plant (plant eraill)

Ar gyfer unrhyw blentyn nad ydynt eisoes wedi'u crybwyll yn y teulu (er enghraifft, hanner brawd neu hanner chwaer)
Nodwch:

- *eu henw llawn a'u cyfeiriad*
- *eu dyddiad geni (os yw'n hysbys) neu eu hoedran*
- *perthynas y plentyn â chi.*

12 Oedolion eraill

Nodwch:

- *enw llawn unrhyw oedolion eraill (er enghraifft, lletywyr) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ag unrhyw blentyn a enwir ym mharagraff 2*
- *p'un a ydynt yn byw yno drwy'r adeg*
- *p'un a yw'r oedolyn, hyd eithaf eich gwybodaeth, wedi bod yn rhan o achos llys yn ymwneud â phlentyn. Os felly, nodwch y dyddiad ac enw'r llys.*

13 Eich rheswm/rhesymau dros wneud cais ac unrhyw gynlluniau ar gyfer y plentyn/ plant

Nodwch yn fras eich rhesymau dros wneud cais a beth rydych eisiau i'r llys ei ystyried.

- ***Peidiwch** â llenwi'r adran hon os yw'r ffurflen yn cael ei chyflwyno gyda ffurflen ychwanegol.*

14 Mynychu’r llys

Nodwch:

- *p'un a fydd arnoch angen cyfieithydd yn y llys. Os felly, nodwch pa iaith a thafodiaith bydd arnoch angen. Os bydd angen cyfieithydd arnoch, rhaid i chi ddweud wrth y llys yn ddi-oed, er mwyn gallu trefnu bod un ar gael.*
- *p'un a oes gennych anabledd ac y bydd angen cymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch. Os felly, nodwch beth yw’r anghenion hynny. Bydd staff y llys yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion.*

15 Gwybodaeth Rhianta – Trefniadau yn dilyn Gwahanu

	Do	Naddo
A ydych wedi cael llyfryn Cynllun Rhianta? (Os Naddo, gallwch gael copi o swyddfa'r llys, o swyddfa cyngor ar bopeth neu gan wasanaeth cyngor teuluol arall.)	☐	☐
Ydych chi cytuno ar Gynllun Rhianta? (Os ydych, cofiwch gynnwys copi o'r Cynllun pan fyddwch yn anfon eich cais i'r llys)	☐	☐
Os oeddech chi wedi cytuno ar Gynllun Rhianta, a yw'r Cynllun wedi chwalu?	☐	☐

Os ydych, esboniwch yn fras pam bod y Cynllun wedi chwalu

Datganiad gwirionedd

Deallaf y gellir dwyn achos dirmyg llys yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad anwir, neu sy'n achosi i ddatganiad anwir gael ei wneud mewn dogfen a ddilysir gan ddatganiad gwirionedd heb gredu'n onest ei fod yn wir.

☐ **Credaf** fod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon ac unrhyw ddalennau parhau yn wir.

☐ **Creda'r ceisydd** bod y ffeithiau a nodir yn y ffurflen hon ac unrhyw ddalennau parhau yn wir. **Fe'm hawdurdodir** gan y ceisydd i lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod

☐ Y Ceisydd

☐ Cynrychiolydd cyfreithiol y Ceisydd(fel y'i diffinnir gan FPR 2.3(1))

Dyddiad

Diwrnod | Mis | Blwyddyn

Enw llawn

Enw cwmni cynrychiolydd cyfreithiol y ceisydd

Os ydych yn llofnodi ar ran ffyrm neu gwmni, nodwch y safle neu'r swydd a ddelir

Deddf Cam-drin Domestig 2021

Mae darpariaethau yn Neddf Cam-drin Domestig 2021 yn atal unigolyn sydd wedi ei gyhuddo o gam-drin rhag holi yn bersonol barti neu dyst yn yr achos sydd wedi dioddef y gamdriniaeth, ac mae hefyd yn atal dioddefwr camdriniaeth rhag holi yn bersonol yr unigolyn a gyhuddir mewn amgylchiadau penodol.

Os yw'r llys yn gorchymyn bod yr achos yn cael ei restru ar gyfer gwrandawiad lle y gellir rhoi tystiolaeth lafar, efallai y bydd angen llenwi ffurflen **EX740** (unigolyn sy'n gwneud y cyhuddiad o gam-drin) neu ffurflen **EX741** (unigolyn y cyhuddwyd o gam-drin) 'Cais a gwybodaeth sydd ei angen gan y llys i ystyried a ddylid atal (gwahardd) holi (croesholi) yn bersonol' fel y gall y llys ystyried a ddylid atal holi wyneb yn wyneb. Bydd y llys yn anfon y ffurflen briodol gyda'r gorchymyn llys.